ADRODDIAD CYNHADLEDD YR HAF

Dyddiad a Lleoliad

Cynhaliwyd y gynhadledd ar ddydd Sadwrn 12 Gorffennaf 2008 yn Neuadd Sir Powys, Llandrindod.

Cyfranogwyr

Gwahoddwyd Cymdeithasau Llywodraethwyr Lleol a grwpiau o Gymru gyfan i anfon hyd at dri cynrychiolydd i'r gynhadledd. Gwahoddwyd Cyfarwyddwyr Addysg a Chynghorwyr gyda phortffolio addysg (neu eu cynrychiolwyr) hefyd. Gyda gwesteion eraill daeth 67 i'r gynhadledd.

Thema

Thema'r gynhadledd oedd 'Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion' a ddatblygwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r Fframwaith yn nodi'r weledigaeth ar gyfer gweithredu diwygiad effeithlonrwydd ysgolion. Mae'r Fframwaith yn seiliedig ar ddiwygiad ar dair lefel (y gymuned addysg gyfan – ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth y Cynulliad) yn cydweithio i wneud y mwyaf o ddysgu unigolion ac ehangu cyfleoedd. Ategir y Fframwaith gan bump thema – meddwl ar ffurf systemau, dwyieithrwydd, diwylliant perfformiad uchel, cydraddoldeb a chefnogol a chyd-ddibynnol.

Cafwyd cyflwyniadau gan Dr Bill Maxwell, Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru a Jane Hutt AC, Gweinidog Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

Hugh Pattrick
Cadeirydd
Llywodraethwyr Cymru

Jane Hutt, AC
Gweinidog Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Jane Morris
Cyfarwyddwraig Dros Dro
Llywodraethwyr Cymru

Cychwynnodd y gynhadledd gyda Dr. Bill Maxwell.

Esboniodd Bill Maxwell y dylai system o welliant ansawdd gael ei chynnal gan y bedair 'golofn' ganlynol

Data perfformiad
- Man cychwyn ar gyfer cymariaethau teg/meincnodi
- Angen bod yn gywir
- Mae angen i'r mesurau ychwanegu gwerth
- Defnydd hunan werthuso
- Angen ei ddadansoddi'n ddeallus
- Angen ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau a fydd yn dylanwadu ar y dyfodol

Dangosyddion ansawdd
- Dehongli data yn y cyd-destun eang
- Rhaid hyrwyddo dysgu
- Rhaid eu defnyddio i osod safonau
- Rhaid galluogi hunan werthuso cadarn

Gweithlu proffesiynol o ymarferwyr proffesiynol
- Pwyslais ar hyfforddiant a datblygu
- Datblygiad proffesiynol parhaus
- Cyfnewid ymarfer gorau
- Monitro a gwerthuso canlyniadau
- Dylanwad cryf ar berfformiad ysgol
- Herio'r tîm rheolaeth ysgol

Arolwg/adolygiad allanol annibynnol
- Darparu cymedroli a 'gwiriad realaeth'
- Atal gor amcangyfrif/tan amcangyfrif o hunan werthuso
- Gwirio bod cysylltiadau cryf rhwng gweithrediad strategaeth a'r canlyniadau dymunol

Bydd Estyn yn cyfrannu at y bedair colofn trwy'r defnydd o ddata a dangosyddion ansawdd a hyrwyddo cyfluniad agweddau trefnyddol, mecanweithiau adolygu a chanlyniadau.

Y Genhadaeth yw codi safonau addysg o ansawdd. Cyflawnir hyn trwy ychwanegu gwerth trwy
- Atebolrwydd cyhoeddus –cymariaethau cadarn rhwng ysgolion
- Mewnbwn i lywio polisi cenedlaethol – defnyddio tystiolaeth a data i ddadansoddi materion a helpu i gyfeirio adnoddau
- Darparu gwelliant ar draws y system
- Lledaenu ymarfer gorau
- Creu sgiliau gwerthuso

Daw'r cylch arolygu o 6 mlynedd i ben yn 2010. Ar hyn o bryd mae Estyn yn adolygu'r newidiadau sydd eu hangen i ddiweddaru'r ymagwedd. Bydd yr adolygiad yn cymryd i ystyriaeth pa strwythur fydd i arolwg, beth fydd y system radio, pwy fydd yn gwneud y broses a pha fath o adborth a roddir. Mae rhai sialensau yn cynnwys sut i gael cydbwysedd rhwng cefnogaeth a sialens yn gywir a sut i gynnwys yr holl ran ddeiliaid.

Yn 2007 bydd cam cyntaf 'prosiect 2010' i adolygu'r broses arolygu yn cychwyn. Bydd y model newydd yn:

- Cyflwyno ‘ffocws dinesydd’ a helpu ‘i wneud y cysylltiadau’
- Seiliedig ar wella perfformiad
- Hyrwyddo gweithio *gydag* ysgolion

Bydd ysgolion yn gyfrifol am sicrhau bod eu systemau (rheoli) ansawdd yn cynhyrchu canlyniadau wedi’u targedu; bydd Estyn yn darparu sicrwydd ansawdd trwy adolygiad allanol o systemau ansawdd a chanlyniadau ac yn helpu cyfeirio ysgol tuag at ymarfer gorau .

Sesiynau gweithdy

Cynhaliwyd y sesiynau gweithdy gan Bennaeth Adran Rheolaeth ac Effeithlonrwydd Ysgolion, Llywodraeth y Cynulliad a phenaethiaid sydd wedi’u secondio i Lywodraeth y Cynulliad fel ymgynghorwyr, i ddatblygu’r Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion .

Roedd y tair sesiwn gweithdy yn canolbwyntio ar oblygiadau ymarferol y Fframwaith i lywodraethwyr ysgolion. Gofynnwyd i’r tri gweithdy nodi pump oblygiad pwysig i gyrff llywodraethu ysgolion a chafwyd cyflwyniad byr cyn hynny gan arweinydd pob gweithdy:-

Mae angen i lywodraethwyr ystyried effaith y Fframwaith o ran ei:
- Gwerth i ysgolion
- Diben moesol
- Effaith ar y gymuned ddysgu broffesiynol
- Gofyniad am allu ychwanegol
- Newid systemau hir dymor
- Gofyn am gael diweddariadau rheolaidd

Mae peilot yn cychwyn ym mis Medi gyda chefnogaeth 30 o aelodau cyswllt ymysg 100 o ysgolion ar draws pob consortiwm yng Nghymru. Aelodau cyswllt yw penaethiaid sydd wedi’u secondio a Swyddogion Gwelliant Ysgolion. Darperir cyllid i ysgolion y mae’r aelodau cyswllt wedi’u secondio ohonynt i ddarparu staff cyflenwi a chyfleoedd datblygu i staff eraill. Bydd yr aelodau cyswllt yn derbyn hyfforddiant dwys mewn meysydd fel hyfforddi – bydd pob un yn darparu cefnogaeth i dair neu bedair ysgol. Cymerir gofal i ychwanegu gallu nid llwyth gwaith. Bydd gan yr aelodau cyswllt enw da mewn gwelliant ysgol ac yn bobl sydd â pharch iddynt yn broffesiynol.

Gofynnwyd i’r grwpiau enwi pum maes blaenoriaeth yn y sesiynau gweithdy.:

Grŵp 1 (dan arweiniad Mary Campbell, Pennaeth, Coleg Cymuned Michaelston, Caerdydd)
- Oblygiadau cynaliadwyaeth a chyllido
- Codi ymwybyddiaeth ‘llywodraethwr’ i’r cysyniad o FfEY
- Croesau a chefnogi egwyddor FfEY
- Y ‘gallu’ i yrru menter arall eto drwodd
- Cyflunio FfEY gyda rhaglen Estyn

Grŵp 2 (dan arweiniad Sue Jenkins, Pennaeth Ysgol Uwchradd RC St Jospeh, Casnewydd)
- Helpu llywodraethwyr i enwi materion blaenoriaeth ar gyfer eu hunain trwy hunan werthuso wedi’u gyflunio â’r FfEY
- Cael ysgolion a llywodraethwyr i rannu ymarfer da
- Cynnal y momentwm y bydd FfEY yn ei ddarparu (arian ac adnoddau))
- Osgoi ‘blinder menter’
- Cyflunio CDYH gyda FfEY

Grŵp 3 (dan arweiniad Sylvia Lindoe, Pennaeth Adran Rheolaeth ac Effeithlonrwydd, Llywodraeth y Cynulliad)

- Angen i lywodraethwr a chyrff llywodraethu wybod rhagor am FfEY
- Angen i gyrff llywodraethu wybod am yr oblygiadau i FfEY
- Angen hyfforddiant effeithiol ar y Fframwaith i lywodraethwyr
- Pwysig cofio mai plant ydy'r ffocws
- Sut y gall llywodraethwyr/cyrff llywodraethu gefnogi'r pennaeth a'r staff?

Codwyd pwyntiau/cwestiynau eraill wrth gyrraedd at y pump pwnc allweddol fel y nodir isod:

- Mae gwerthfawrogiad i rôl llywodraethwyr fod yn fwy agored
- Angen eglurder o ran dangosyddion ansoddol ac atebolrwydd
- Mae angen newid ethos/diwylliant i hyrwyddo diben moesol ehangach a'i wneud yn amlwg mewn cymunedau dysgu proffesiynol
- Cynnal ethos egalitaraidd ysgolion yng Nghymru (cymharu â Lloegr?)
- Mae gan pob ysgol gryfderau unigol/gwahanol y gellir eu rhannu i 'gosi'r bar' i bob ysgol
- Mae llywodraethwyr ysgolion angen arbenigedd proffesiynol ond a oes gan lywodraethwyr yr amser? (cydbwysedd bywyd gwaith))
- Dyfodol clystyrau/cysylltiadau gydag aelodau cyswllt? Pa mor hir? Y gost?
- A ddylai Llywodraeth y Cynulliad ddethol aelodau cyswllt yn y dyfodol (nid hyfforddi'n unig)
- Sut y gallwn lywio/helpu ein corff llywodraethu o ran y Fframwaith?
- Yng nghyfarfod nesaf y corff llywodraethu, eitem 1 ar yr agenda i fod yn esboniad gan y Pennaeth am y Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion – beth ydyw a pham fod ei angen?
- Beth yn union y mae hyn yn ei olygu i'n hysgol a sut y gallwn ei weithredu er y lles gorau i ni?
- Rhannu ymarfer gorau – gwnewch hynny a bydd y gweddill yn dilyn!
- Oblygiadau cyllido
- Diffyg cyfranogiad llywodraethwyr – Fframwaith a Chynlluniau Peilot
- Newid perthynas rhwng ysgolion
- Croesawu a chefnogi'r egwyddor
- Gwneud y corff llywodraethu cyfan yn ymwybodol o'r Fframwaith (yn cynnwys Cynllun Gwelliant Ysgol)
- Materion hyfforddi i'r holl ran ddeiliaid

Prif anerchiad gan Jane Hutt AC, Gweinidog Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

Pwysleisiodd Jane Hutt bod enghreifftiau o ragoriaeth, perfformiad da, uchelgais a brwdfrydedd mewn ysgolion ar draws Cymru. Yr allwedd i Gymru lwyddiannus oedd rhannu'r ymarfer da hwnnw ac annog pob ysgol i anelu at ragoriaeth ym mhob agwedd o'u gwaith

Ei phrif negeseuon oedd:

- Bod yn fwy uchelgeisiol ar gyfer canlyniadau
- Canolbwyntio ar wella perfformiad
- Bydd y Fframwaith (ac Estyn) yn gymorth i ffurfio'r dyfodol ar gyfer ysgolion
- Cydweithio yw'r allwedd i'r Fframwaith – o fewn ysgolion, ar draws ysgolion, AALl, Llywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid eraill
- Mae'r peilot yn cychwyn ym mis Medi – mae rhestr o'r ysgolion peilot wedi'i gyhoeddi
- Mae'r aelodau cyswllt (penaethiaid wedi'u secondio a Swyddogion Gwelliant Ysgol) wedi'u hyfforddi i hyfforddi a chefnogi ysgolion unigol a grwpiau o ysgolion.
- Bydd y Fframwaith yn cael ei ledaenu i bob ysgol o fis Medi 2009 yn dilyn gwerthusiad o'r cynllun peilot
- Mae'n ateb tymor hir yn hytrach na thymor byr
- Mae angen sicrhau bod polisïau, strategaethau ac arolwg Estyn yn cyd-fynd â'r Fframwaith

Mae angen i lywodraethwyr:

- Ofyn y cwestiynau hanfodol
- Trafod effaith y Fframwaith ar yr ysgol
- Cyflunio gyda Chynllun Datblygu'r Ysgol
- Hunan werthuso a gwella

Yn dilyn anerchiad y Gweinidog gofynnwyd nifer o gwestiynau yn amrywio o faterion cyllid, cefnogaeth a hyfforddiant i gynorthwyo llywodraethwyr gyda'r Fframwaith etc.

Holiaduron Gwerthuso

Dychwelwyd 33 o holiaduron
Roedd y mwyafrif yn meddwl bod y gynhadledd wedi bod yn ddefnyddiol ac wedi darparu gwybodaeth.
Rhoddir dadansoddiad manwl isod:-

Oedd y gynhadledd yn ddefnyddiol ac wedi darparu gwybodaeth?
Oedd 27 Nac oedd 0 I rhyw raddau 6

Rhoddir rhai sylwadau isod:

- Codi ymwybyddiaeth am fanylion ac oblygiadau'r Fframwaith
- Diweddariadau ar ddatblygiadau diweddar gan Estyn a'r Fframwaith
- Gwella fy ngwybodaeth ac ymwybyddiaeth o ddatblygiadau mewn addysg yng Nghymru. Cyfle hefyd i gyfarfod cydweithwyr a thrafod pethau o ddiddordeb cyffredin
- Mae'r pwnc hwn yn fenter diweddaraf i symud addysg ymlaen felly roedd rhyngweithio gydag eraill yn hanfodol i'w ddeall a'i roi mewn persbectif
- Teimlais nad yw llywodraethwyr wedi cael cyfrannu llawr at y trafodaethau ar y Fframwaith felly roeddwn yn croesawu'r gynhadledd heddiw
- Mae'n braf cael mynd â gwybodaeth yn ôl i'r ysgol a chyfarfod AEM a Gweinidog. Mae angen gwerthfawrogi llywodraethwyr ac mae hyn yn sicrhau bod hynny'n digwydd

Pa ran o'r gynhadledd oedd fwyaf defnyddiol? Rhoddir rhai sylwadau isod:

- Diddorol iawn. Trafodaeth yn ddefnyddiol iawn
- Cyfnewid barn gyda llywodraethwyr eraill a mynegi problemau cyffredin – a siaradwyr gwadd yn ateb cwestiynau
- Cael cyfle i weithio trwy'r pwnc yn gymorth i dawelu ofnau a phwyntio'r ffordd ymlaen
- Darlun manwl o resymeg sydd yn waelodol i'r ymagwedd
- Gweithdai'n bwysig – rhannu syniadau
- Croesawu'r cyfle yn y gweithdai i glywed gan un o'r penaethiaid oedd yn rhan o ddatblygu'r Fframwaith
- Llawn gwybodaeth: anerchiad a chyflwyniadau. Braf cael siarad a thrafod gyda chydweithwyr a llywodraethwyr eraill
- Diddorol clywed barn a phrofiadau llywodraethwyr eraill – cyfleoedd i rwydweithio

Rhai sylwadau cyffredinol isod:

- Rwy'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gawn gan Lywodraethwyr Cymru
- Llenyddiaeth, gwaith papur a thaflenni yn ateb yr anghenion ar hyn o bryd
- Heb glywed dim am y Fframwaith tan heddiw
- CCB a chynhadledd diddorol iawn

Syniadau am bynciau ar gyfer cynadleddau Llywodraethwyr Cymru yn y dyfodol:

- Llwybrau Dysgu 14-19 (2); Fframwaith Cyfranogiad Disgyblion/ABCh
- UNCRC – hawliau a chyfranogiad plant
- Agweddau cyfreithiol yn cynnwys materion staffio, Iechyd a Diogelwch, gwneud y mwyaf o gyllid
- Cyllid i ysgolion, Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, Llywodraethwyr newydd: sut y gallwn hyfforddi? Beth ydy'r egwyddorion cyntaf?
- Problemau a amlygwyd gydag ymgynghorwyr cyfreithiol
- Darparu adnoddau digonol i addysg (3)
- Aelodau cyswllt, rôl llywodraethwyr yn y Cynllun Gwelliant Ysgol
- Recriwtio a chadw llywodraethwyr ysgol

Casgliad

Cyflawnodd y gynhadledd ei nod o alluogi cyfranogwyr i archwilio nifer o faterion yn berthynol i'r Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion gan edrych yn benodol ar:

(1) gweledigaeth a diben y Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion
(2) rôl llywodraethwyr yn y Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion;
(3) sefyllfa a datblygiadau cyfredol mewn ysgolion.

Mae'r Fframwaith Effeithlonrwydd Ysgolion ar gael yn:
http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/schooleffectivenessframework/?lang=en

Bwriadwn adeiladu ar y gynhadledd lwyddiannus hon a byddwn yn trefnu dau ddigwyddiad rhanbarthol yn 2008/2009.